

Negeseuon allweddol o ymchwil ar oedolion yn cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Sarah Brown,
Prifysgol Arfordir yr Haul a Phrifysgol
Gorllewin Lloegr (UWE)

Hydref 2023

www.csacentre.org.uk



Negeseuon allweddol

Mae defnyddio'r rhyngwrdd, cyfryngau cymdeithasol, lle storio yn y cwmwl, gwasanaethau ffrydio a dyfeisiau digidol fel ffonau symudol, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron wedi'i wreiddio yn ein bywydau bob dydd – ac mae technoleg o'r fath yn debygol o ymddangos ym mhob math bron o gam-drin plant yn rhywiol.

Gall oedolion ddefnyddio manau ar-lein i gael sgysiau rhywiol gyda phlant; gwyllo, lawrlwytho neu ddsbarthu delweddau rhywiol o blant; gorchymyn rhywun i gam-drin plentyn yn rhywiol o flaen gwe-gamera; cyfathrebu â phlentyn gyda'r bwriad o gyflawni trosedd wyneb yn wyneb yn nes ymlaen; neu gymell plentyn i fod yn noeth neu berfformio gweithredoedd rhywiol drwy lun, fideo neu we-gamera byw. Mae cam-drin o'r fath yn gallu digwydd ar y 'we dywyll' ac, yn fwy cyffredin, ar lwyfannau 'gwe agored' fel Snapchat, Instagram, Facebook, Facebook Messenger, X (a elwid yn Twitter gynt) a WhatsApp. Mae hefyd yn gallu digwydd drwy ffonau symudol/negeseuon testun a llwyfannau gemau.

Mae llawer o oedolion sy'n cyflawni'r troseddau hyn yn gyfarwydd i'w dioddefwyr (fel aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydnabod neu bobl mewn awdurdod). Er bod rhai menywod yn cam-drin plant yn rhywiol mewn manau ar-lein, mae'r rhan fwyaf o oedolion sy'n gwyllo, yn rhannu a/neu'n cynhyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn ddyddion gwyn.

Mae gwyllo delweddau o gam-drin plant yn rhywiol yn gallu dechrau heb fod diddordeb rhywiol mewn plant, a gall ddigwydd yn ystod cyfnodau o straen, anawsterau mewn perthnasoedd personol, unigrwydd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu iselder. Mae llwybr cyffredin yn dechrau gyda gwyllo pornograffi cyfreithiol. Mae'r cymhellion yn cynnwys chwilfrydedd; hwyluso perthnasoedd cymdeithasol; cyffro neu diddordeb rhywiol; chwilio am wefr; budd ariannol, 'osgoi bywyd go iawn' a chymhelliad i gasglu delweddau. Mae llawer yn dweud bod eu hymddygiad yn debyg i fod yn gaeth i rywbeth.

Mae cam-drin plant yn rhywiol lle mae delweddau'n gysylltiedig yn gallu cael effaith ddifrifol sy'n para am byth, gyda'r potensial i blant fod yn ddiodefwr dro ar ôl tro bob tro y bydd y delweddau'n cael eu gwyllo. Efallai y byddan nhw'n teimlo euogrwydd, cywilydd ac yn beio eu hunain, ac efallai y byddan nhw dan fygythiad i gael eu cam-drin yn rhywiol eto. Gellir a dylid cymryd camau i dynnu delweddau o'r manau ar-lein lle maen nhw'n cael eu postio, lle bo hynny'n bosibl.

Mae plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein yn dweud eu bod yn cael llai o gymorth na phlant sy'n dioddef mathau eraill o gam-drin rhywiol. Un rheswm posibl dros hyn yw bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu helpu oherwydd nad ydyn nhw'n 'arbenigwyr' yn y dechnoleg. Ond mae'r sgiliau sydd eu hangen i roi ymateb effeithiol yr un fath ag ar gyfer unrhyw fath o gam-drin plant: ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas, siarad â phlant, a derbyn yr hyn maen nhw'n ei ddweud.

Mae angen ymyriadau penodol ar oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein. Er bod gwerthusiadau addawol o ddwy raglen – Inform Plus a Prevent It – mae hwn yn faes y mae angen ei ddatblygu a'i werthuso ymhellach.

Mae angen atal yn fwy effeithiol, gan gynnwys dylunio llwyfannau technoleg ac adnoddau i ddarparu 'diogelwch o'r cychwyn cyntaf'. Canfuwyd bod rhybuddion ffenestr naid a sgwrsfotiau yn atal oedolion rhag troseddu, ac yn eu helpu i fynd i'r afael â'u hymddygiad a'u meddyliau sy'n peri pryder; mae hwn yn faes lle mae mwy a mwy o ymchwil a diddordeb ynddo.

Mae plant, partneriaid a theuluoedd ehangach y rhai yr ymchwilir iddyn nhw am droseddau ar-lein yn profi trawma, o ymweliad cychwynnol yr heddlu â'r cartref ac am flynyddoedd wedyn. Dylid dangos empathi wrth ymateb iddyn nhw, gan beidio â thynnu sylw atyn nhw na bod yn feirniadol.

Mae'r amgylchedd a'r rhyngweithio ar-lein yn hanfodol i fywyd bob dydd erbyn hyn. Mae oedolion a phlant yn defnyddio technoleg cyfathrebu digidol a'r rhyngwrwyd fel mater o drefn – drwy gyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, gemau ar-lein, byrddau negeseuon, ffrydio ac ati – ac mae hyn yn creu mwy o gyfleoedd i rai gam-drin.

Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r ymchwil bresennol ar gam-drin plant yn rhywiol a gyflawnwyd gan oedolion mewn cyd-destunau ar-lein, y bobl sy'n cyflawni'r cam-drin hwnnw, a'u dioddefwyr. Dylech ei ddarllen ochr yn ochr â **Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Gyflawnir gan Oedolion** a **Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol mewn Cyd-destunau Ar-lein**, sydd ar y gweill, y ddau wedi'u cyhoeddi gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh).

Sylwer: Mae'r term 'plant' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at unigolion o dan 18 oed.

Rôl mannau ar-lein a thechnoleg ddigidol mewn cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion

Mae'r termau 'cam-drin plant yn rhywiol ar-lein' a 'cam-drin plant yn rhywiol gyda chymorth technoleg' yn cael eu defnyddio'n eang mewn perthynas â chynhyrchu, gwyllo a/neu rannu delweddau rhywiol (lluniau llonydd a fideos) o blant. Fodd bynnag, gall technoleg ddigidol ymddangos bron ymhob math o gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol gyda'r Ganolfan Astudiaethau Cam-drin a Thrawma, 2020). Mae enghreifftiau'n cynnwys cael sgysiau rhywiol â phlant; gorchymyn rhywun i gam-drin plentyn yn rhywiol o flaen gwe-gamera; cyfathrebu â phlentyn gyda'r bwriad o'i gam-drin yn rhywiol wyneb yn wyneb yn nes ymlaen; a chymell plentyn i fod yn noeth neu berfformio gweithredoedd rhywiol drwy fideo neu we-gamera byw.

Gall cam-drin plant yn rhywiol sy'n ymwneud â thechnoleg gynnwys elfennau ar-lein ac 'wyneb yn wyneb', gan symud yn rhwydd o un i'r llall; er enghraifft, gall cam-drin plentyn wyneb yn wyneb gael ei ffilmio, ac yna ei ddangos i'r plentyn ar-lein er mwyn ei flacmelio neu ei orfodi i ragor o gam-drin (Hamilton-Giachritsis et al, 2017 a 2021).

Mae pobl yn meddwl bod cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn digwydd yn bennaf ar y 'we dywyll', ond mae'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio rhywiol a allai fod yn niweidiol yn digwydd ar lwyfannau poblogaidd y 'we agored' fel Snapchat, Instagram, Messenger, Facebook, WhatsApp, Google Hangouts/Meet, TikTok, 'X' (a elwid gynt yn Twitter) ac YouTube (Goharian et al, 2022).

Maint y cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mewn arolwg diweddar yn yr Unol Daleithiau, dywedodd 16% o oedolion ifanc 18-28 oed eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol ar-lein cyn eu bod yn 18 oed; dywedodd dros draean (36%) o'r goroeswyr hyn eu bod wedi cael eu cam-drin gan bobl 18-25 oed, ac roedd un o bob saith (15%) wedi disgrifio eu bod wedi cael eu cam-drin gan oedolion hŷn (Finkelhor, Turner a Colburn, 2022).

Er nad yw fel arfer yn bosibl gwahanu troseddau 'ar-lein' ac 'all-lein' yn nata'r heddlu, roedd traean (34%) o'r 103,055 o droseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu ledled Cymru a Lloegr yn 2021/22 yn droseddau delweddau (Karsna a Bromley, 2023). Fodd bynnag, mae gwir raddau cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein yn debygol o fod yn llawer uwch na'r lefel a adroddwyd wrth yr heddlu (Jay et al, 2022).

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod nifer y bobl sy'n cael mynediad at ddelweddau o gam-drin plant yn rhywiol yn dal i dyfu (Jay et al, 2022). Yn 2022, canfu'r Internet Watch Foundation (IWF) ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol mewn dros chwarter miliwn o dudalennau gwe. Roedd y rhan fwyaf o ddelweddau rhywiol o blant a adroddwyd wrth yr IWF yn cael eu 'hunan-gynhyrchu' gan blant, yn aml ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd gwely, ac yn cael eu dal drwy ffôn neu gamera cyfrifiadurol; mewn llawer o achosion, roedd y plant hyn wedi cael eu hudo, eu twyllo neu eu gorfodi i gynhyrchu a rhannu'r delweddau (IWF, 2022).

Nodweddion oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Canfu arolwg o blant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol wyneb yn wyneb, gyda'r cam-drin wedi'i gofnodi ar gyfer ei rannu ar-lein, fod y bobl a oedd yn eu cam-drin fel arfer yn rhieni, yn cydnabod i'r plentyn neu ei deulu, neu'n berson mewn swydd gyfrifol; dynion yn bennaf, er nid yn llwyr, oedd yr oedolion a oedd yn cam-drin yn y modd hwn (Canadian Centre for Child Protection, 2017).

Canfu arolwg arall, mewn achosion pan roedd oedolion wedi gofyn neu roi pwysau ar blant ar-lein i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (er enghraifft, darparu delweddau neu gael sgysiau rhywiol), fod y plentyn eisoes yn adnabod yr oedolyn y tu allan i'r rhyngwrwyd yn y rhan fwyaf o achosion (Finkelhor, Turner a Colburn, 2022). Mae'r rhan fwyaf o ddelweddau rhywiol o blant yn cael eu cynhyrchu yng nghartref y teulu, gan y plentyn ei hun neu gan aelod o'r teulu (Setter et al, 2021).

Mae'r rhan fwyaf o oedolion sy'n gwylio, yn rhannu ac/neu'n cynhyrchu delweddau rhywiol o blant yn ddynion o gefndiroedd ethnig gwyn (DeMarco et al, 2018; Hamilton a Belton, 2022). Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae menywod yn cynhyrchu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol, mae'r rhain yn ddelweddau o'u plant eu hunain (Bickart et al, 2019; Salter et al, 2021). Mae tystiolaeth bod rhai menywod sy'n cyflawni troseddau mewn cyd-destunau ar-lein yn cael eu cymell gan ddiddordeb rhywiol mewn plant (Aguarde a Rydon-Grange, 2022). Mae astudiaethau wedi canfod bod y rhan fwyaf o fenywod sy'n cynhyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn gwneud hynny gyda'u partneriaid neu ddynion eraill (Bickart et al, 2019; Salter et al, 2021), ac mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n troseddu ar eu pen eu hunain yn cynhyrchu'r deunydd i ddynion maen nhw'n eu hadnabod (Salter et al, 2021).

Yn gyffredinol, nodwedd fwyaf trawiadol y dynion sy'n gwylio ond ddim yn cynhyrchu delweddau rhywiol o blant yw eu 'cyffredinedd' (Prichard, Scanlan, Watters et al, 2022). O'u cymharu â dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol wyneb yn wyneb yn erbyn plant, maen nhw'n llai tebygol o fod ag euogfarnau blaenorol, tueddiadau gwrthgymdeithasol, problemau camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl difrifol, ac yn fwy tebygol o fod yn briod, wedi'u haddysgu'n dda ac mewn cyflogaeth (Babchishin et al, 2015).

Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mae effeithiau cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein yn amrywio'n fawr, ac mae'r effeithiau'n gallu bod yn ddifrifol sy'n para am byth (Hamilton-Giachritsis et al, 2017 a 2021; Joleby et al, 2020; Jonsson et al, 2019; Whittle et al, 2013). Gall arwain at deimladau o euogrwydd, cywilydd a beio eu hunain, gyda phlant yn teimlo eu bod wedi cymryd rhan yn y cam-drin mewn rhyw ffordd (Quayle et al, 2023; Gewirtz-Meydan et al, 2018; Hamilton-Giachritsis et al, 2017 a 2021; Leonard, 2010). Mae hefyd yn gwneud i ddiodefwr fod dan fygythiad i gael eu cam-drin yn rhywiol eto, er enghraifft pan ddefnyddir delweddau i'w blacmelio (Hamilton-Giachritsis et al, 2017a 2021; Walsh a Tener, 2022).

Pan fydd delweddau o blentyn wedi cael eu rhannu, mae potensial i'r plentyn fod yn ddiodefwr eto dro ar ôl tro, bob tro y bydd delwedd yn cael ei gwylio, ei hanfon neu ei derbyn (ECPAT International, 2020). Gall effaith hyn barhau i'r cyfnod pan fydd y plentyn yn oedolyn, gyda diodefwr/goroeswyr yn dweud eu bod yn poeni'n gyson am gael eu hadnabod gan berson sydd wedi gwylio'r deunydd, ac mae rhai wedi cael eu hadnabod fel hyn (Canadian Centre for Child Protection, 2017; Gewirtz-Meydan et al, 2018; Leonard, 2010). Mae'r ffaith bod y deunydd ar gael drwy'r amser yn golygu ei bod yn amhosibl i'r sefyllfa ddod i ben yn llwyr (Leonard, 2010; Ost a Gillespie, 2018).

Cefnogi dioddefwyr/ goroeswyr

Mae unrhyw blentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol eisiau gallu siarad â phobl sy'n ei gredu ac sy'n gwybod sut i'w helpu. Mae'n bwysig darparu amgylcheddau cefnogol lle gall plant siarad yn hyderus am eu profiadau a disgwyl cael cymorth a fydd yn eu helpu (Quayle et al, 2023; Phippen a Bond, 2022). Mae cael eich holi am gam-drin rhywiol yn bwysig (Alaggia et al, 2019).

Mae llawer o blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein yn ei chael yn anodd cael gafael ar ymyriadau cefnogol priodol (Bond et al, 2018; Jay et al, 2022; Smith et al, 2015) – ac os/pan fyddant yn cael ymateb, maen nhw'n gallu teimlo eu bod yn cael llai o gefnogaeth na dioddefwyr mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol (Hamilton-Giachritsis, 2017 a 2021). Mae ymchwil yn awgrymu bod y dioddefwyr hyn yn cael eu 'beio' yn fwy aml gan weithwyr proffesiynol, sy'n gallu eu gweld fel rhai sy'n cymryd risg neu'n cymryd rhan yn y cam-drin mewn rhyw ffordd (Hamilton-Giachritsis, 2017 a 2021).

Ar ben hynny, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu helpu dioddefwyr/goroeswyr, gan nad ydyn nhw'n 'arbenigwyr' yn y dechnoleg (Quayle et al, 2023; Slane et al, 2021). Fodd bynnag, nid oes angen gwybodaeth fanwl am dechnoleg i ofyn i blant am eu profiadau, a gall oedolion ofyn i blant ddangos neu egluro pethau nad ydyn nhw'n eu deall. Mae gwerth ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas yr un mor berthnasol i ddefnydd plant o dechnoleg ag ydyw i feysydd ymarfer eraill (Marie Collins Foundation a NWG Network, 2020).

Dylai cymorth ymateb i sefyllfa ac anghenion unigol pob plentyn, ac mae'n bwysig ystyried y posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng cam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac wyneb yn wyneb wrth benderfynu ar yr ymateb cefnogol mwyaf priodol. Mae'n hanfodol nad yw negeseuon gan weithwyr proffesiynol yn rhoi'r bai ar ddiodeffwyr/goroeswyr. I gael rhagor o wybodaeth am y ffyrdd y gall gweithwyr proffesiynol ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc a'u teuluoedd, gweler [Online Sexual Harm Reduction Guide](#) gan y Marie Collins Foundation; mae canllawiau ar herio iaith beio dioddefwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gael gan [Gyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd](#).

Dylai gweithwyr proffesiynol gymryd camau i gael gwared ar ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol drwy roi gwybod i'r safle, yr ap neu'r rhwydwaith sy'n eu cynnal, ac i'r [Internet Watch Foundation](#). Gall plant ddefnyddio adnodd Childline, [Report Remove](#), gyda chymorth oedolyn dibynadwy. Mae hwn yn ddatblygiad adeiladol, ond mae'n bwysig nodi na fydd hyn yn gweithio ar gyfer rhaglenni gan gynnwys WhatsApp oherwydd eu bod yn defnyddio amgryptio o un pen i'r llall.

Llwybrau i gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mae llawer o lwybrau gwahanol a chymhleth i gam-drin plant yn rhywiol, fel yr amlinellir yn **Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Gam-drin Plant yn Rhywiol a Gyflawnir gan Oedolion** gan y Ganolfan CPRh.

O ran yr holl lwybrau hyn, efallai na fyddai pobl yn cam-drin pe na fydden nhw'n cael cyfleoedd i wneud hynny. Er enghraifft, o'i gymharu â'r rheini sy'n cam-drin plant yn rhywiol wyneb yn wyneb, canfuwyd bod gan ddynion sy'n cyflawni troseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol fwy o fynediad at dechnoleg a llai o fynediad wyneb yn wyneb at blant (Babchishin et al, 2015).

Mae amgylcheddau a thechnoleg ar-lein yn darparu mynediad hawdd at ddelweddau rhywiol o blant, ac at blant eu hunain; mae hyn yn golygu bod llai o rwystrau rhag troseddu (Hamilton a Belton, 2022). Ar ben hynny, efallai bod y ffaith bod pobl yn anhysbys yn llai o rwystr iddyn nhw, yn ogystal â bod y manau maen nhw'n eu defnyddio yn ymddangos fel pe na baent yn cael eu monitro, a bod gweithgareddau troseddol ddim yn cael eu rheoleiddio (Steel et al, 2023).

Efallai y bydd rhai oedolion yn gwylio neu'n rhannu delweddau rhywiol o blant yn lle'r gwahanol fathau eraill o gam-drin rhywiol; mae cymhellion eraill yn cynnwys chwilfrydedd, cymhelliad obsesiynol i gasglu deunydd, hwyluso perthnasoedd cymdeithasol, budd ariannol, chwilio am wefr, cyffro neu ddiddordeb rhywiol, a/neu 'osgoi bywyd go iawn' (Hamilton a Belton, 2022; Rimer, 2021).

Mae gwylio delweddau rhywiol o blant yn gallu dechrau heb fod diddordeb rhywiol mewn plant (Ly et al, 2018). Yn aml, mae'n dechrau yn ystod cyfnodau o straen, anawsterau gyda pherthnasoedd personol, unigrwydd, problemau gyda sylweddau neu ddibyniaeth, neu iselder (Knack et al, 2020; Morgan a Lambie, 2019; Rimer, 2021).

Mae'r llwybr cyffredin i wylio delweddau o gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys gwylio pornograffi cyfreithiol i ddechrau. Mae unigolion yn dweud eu bod yn gwylio deunydd mwy eithafol, a deunydd sy'n portreadu unigolion iau, dros amser (Hamilton a Belton, 2022; Rimer a Holt, 2023). Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o ddynion yn gwylio neu'n meddu ar ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol yn *unig* (Steel et al, 2021; Wolak et al, 2011). Mae llawer o ddynion a gafwyd yn euog o droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol yn gweld eu hymddygiad yn debyg i fod yn gaeth i rywbeth (Rimer a Holt, 2023; Seto et al, 2010).

Gorgyffwrdd â cham-drin plant yn rhywiol wyneb yn wyneb

Mae'n anghyffredin i unigolion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o wyllo neu rannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol gael eu dyfarnu'n euog o droseddau rhywiol wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau aildroseddu ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â delweddau yn uwch, felly ni ddylid anwybyddu'r potensial i aildroseddu (Elliott et al, 2019; Babchishin et al, 2022). Pan fydd oedolion yn cyflawni troseddau rhywiol wyneb yn wyneb ac ar-lein, mae troseddau wyneb yn wyneb yn aml yn arwain at droseddau mewn cyd-destunau ar-lein (Hamilton a Belton, 2022). Mae'n ymddangos bod y drefn y mae dynion yn cyflawni troseddau rhywiol wyneb yn wyneb a throseddau rhywiol sy'n gysylltiedig â delweddau yn berthnasol i risg a'r math o droseddu yn y dyfodol (Babchishin et al, 2022), felly mae'n bwysig ystyried patrymau troseddu/gwyllo wrth gynnal asesiadau risg.

Canfu astudiaeth o unigolion yn chwilio am ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol ar y we dywyll fod y tebygolrwydd, wedi'i gofnodi gan yr unigolyn, o chwilio am gyswllt uniongyrchol â phlant ar ôl gwyllo'r delweddau hynny yn uwch ymysg y rheini a oedd yn gwyllo'r delweddau'n amlach, roedden nhw'n hŷn pan wnaethon nhw ddechrau ei wyllo, wedi gwyllo delweddau sy'n portreadu plant bach a babanod, a/neu wedi bod mewn cysylltiad â phobl eraill sydd wedi gwyllo delweddau cam-drin plant yn rhywiol (Insoll et al, 2022).

Gall dynion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau delweddau rhywiol o blant fod mewn mwy o berygl o gyflawni rhagor o droseddau os ydyn nhw'n cymryd rhan weithredol mewn cymunedau ar-lein sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, dosbarthu deunydd cam-drin plant yn rhywiol, heb lawer o hunanreolaeth, yn dangos casineb neu'n meddwl mewn ffordd sy'n cefnogi troseddu (Hamilton a Belton, 2022).

Asesu risg a strategaethau ar gyfer tarfu

Gall adnoddau asesu risg strwythuredig fel Rhagfynegydd Troseddau Rhywiol System Asesu Troseddwyr (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2020) ddarparu arwyddion o debygolrwydd y bydd dynion yn aildroseddu ar gyfer troseddau rhywiol 'wyneb yn wyneb' a throseddau sy'n ymwneud â delweddau rhywiol o blant (Brown, 2022). Fodd bynnag, mae angen asesiadau unigol manwl i nodi ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer pob person, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau priodol ynghylch diogelu a'r cynlluniau rheoli risg sydd eu hangen.

Mae ystod o sefydliadau, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn tarfu ar gam-drin plant yn rhywiol ar-lein gan ddefnyddio gweithgareddau sy'n seiliedig ar dechnoleg gan gynnwys monitro rhwydweithiau rhwng cymheiriaid, offer canfod awtomataidd, gwe-ymlusgwyr, ac adnabod wynebau; mae llawer hefyd yn cynnal ymchwiliadau rhagweithiol drwy rannu gwybodaeth a thechnoleg (Jay et al, 2022). Yn ogystal â thynnu delweddau rhywiol o blant oddi ar safleoedd ar-lein, mae'r camau hyn yn canfod dioddefwyr a'r rheini sy'n eu cam-drin gan ddefnyddio technoleg. Er bod llawer iawn o ddeunydd yn dal i gael ei dynnu a bod nifer fawr o bobl wedi'u darganfod, ychydig iawn o werthusiad cyhoeddedig sydd wedi bod o'r strategaethau hyn (Edwards et al, 2021; Finkelhor, Walsh et al, 2022).

Gweithgareddau atal

Er y cydnabyddir bod atal cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein rhag digwydd yn y lle cyntaf, yn gorfod bod yn flaenoriaeth (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022), mae'r atal wedi tueddu i ganolbwyntio ar blant – gan gynnwys ffocws ar eu haddysgu i 'gadw'n ddiogel' – ac mae gormod o bwyslais wedi cael ei roi ar 'bobl ddieithr beryglus' (Finkelhor, Walsh et al, 2022).

Yn y DU, mae sefydliadau fel Lucy Faithfull Foundation (LFF), Safer Living Foundation a StopSO yn darparu gwasanaethau i unigolion sy'n brwydro gyda meddyliau ac ymddygiad rhywiol amhriodol, er nad yw'r rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu gwerthuso eto (gweler Perkins et al, 2018). Canfu astudiaeth o **Prevent It**, rhaglen therapi gwybyddol ymddygiadol a ddarperir dros y rhyngwyd, ei bod yn lleihau'r deunydd cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei wyllo gan ddynion sy'n cael eu recriwtio o fforymau ar y we dywyll; dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi dysgu dulliau defnyddiol a'u bod yn teimlo gobaith (Lätth et al, 2022).

Mae gwasanaeth sgwrsio byw, e-bost a llinell gymorth gyfrinachol **Stop It Now!** LFF yn cynnig cymorth i unrhyw un sydd â phryderon am gam-drin plant yn rhywiol. Yn y DU ac Iwerddon, mae tua hanner y bobl sy'n cysylltu yn poeni am eu hymddygiad eu hunain, gydag un o bob pump ohonynt wedi ceisio cael delweddau anwedus gan blentyn (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022). Canfu gwerthusiad o linellau cymorth Stop It Now! yn y DU/ Iwerddon a'r Iseldiroedd eu bod yn galluogi pobl i ddeall a rheoli eu hymddygiad yn well (Van Horn et al, 2015).

Mae Stop It Now! hefyd yn darparu canllawiau dysgu hunangyfeiriedig ar-lein. Mae mwy na 170,000 o bobl wedi cael gafael ar y rhain, ac mae gwerthusiadau annibynnol yn dangos bod nifer wedi newid eu hymddygiad, gyda llawer ddim yn gwylio delweddau mwyach (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022).

Gwneud manau ar-lein yn 'ddiogel o'r cychwyn cyntaf'

Mae theori atal troseddau mewn sefyllfaoedd yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwneud manau ar-lein yn llai ffafriol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol – er enghraifft, drwy gynyddu'r risg ymddangosiadol o droseddau a chyfyngu ar fynediad plant at safleoedd/ manau penodol (Smallbone a Wortley, 2017). Yn unol â hynny, mae'r angen i ddatblygu adnoddau a llwyfannau technoleg sy'n 'ddiogel o'r cychwyn cyntaf' wedi cael ei amlygu (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol, 2022; Jay et al, 2022).

Mae negeseuon naid wedi atal rhai unigolion rhag ymweld â gwefannau neu lwytho delweddau i fyny (Prichard, Wortley et al, 2022, Prichard, Scanlan, Krone et al, 2022). Mae'r negeseuon mwyaf effeithiol yn nodi y gellir olrhain cyfeiriadau IP neu y gallai'r deunydd fod yn anghyfreithlon, neu gynnig gwefan i ymweld â hi os yw defnyddwyr yn poeni am eu defnydd o bornograffi (Prichard, Scanlan, Watters et al, 2022; Prichard, Wortley et al, 2022).

Ymyriadau gydag oedolion y canfuwyd eu bod wedi cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Mae bod yn destun ymchwiliad neu gael euogfarn am drosedd rywiol sy'n gysylltiedig â delweddau yn gallu cael effaith ataliol benodol, gyda chyfraddau aildroseddu'n isel (Hamilton a Belton, 2022), er y dylid nodi bod llawer o droseddu'n digwydd heb i neb roi gwybod amdano.

Nid yw ymyriadau a ddatblygwyd ar gyfer dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol wyneb yn wyneb yn effeithiol i unigolion a gafwyd yn euog o droseddau sy'n ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol (Elliott et al, 2019). Cafodd y rhaglen ymddygiad troseddol achrededig iHorizon, a gyflwynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn y ddalfa ac yn y gymuned, ei chyflwyno yn 2018 ar gyfer unigolion sydd wedi'u cael yn euog o droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol yn unig ac sy'n cael eu hasesu fel unigolion sydd â risg ganolig ac uwch o aildroseddu. Canfu gwerthusiad diweddar o iHorizon (Elliott a Hambly, 2023) fod cyfranogwyr wedi dangos cynnydd cadarnhaol ar draws pum targed triniaeth – rheoli problemau bywyd, perthnasoedd iach, diddordebau rhywiol iach, meddwl yn iach, ac ymdeimlad o bwrpas (ymatal rhag troseddu) – er bod absenoldeb grŵp rheoli yn golygu na ellid priodoli'r cynnydd hwn yn uniongyrchol i gymryd rhan yn y rhaglen.

Mae rhaglen **Inform Plus** Lucy Faithfull Foundation ar gyfer pobl sydd wedi cael eu harestio, eu rhybuddio neu eu dyfarnu'n euog am droseddau ar-lein sy'n cynnwys delweddau o gam-drin plant yn rhywiol; ei nod yw eu helpu i edrych yn fanwl ar eu hymddygiad mewn amgylchedd anfeirniadol a chefnogol. Mae astudiaethau wedi canfod bod cyfranogwyr wedi profi gwelliannau yn eu gallu cymdeithasol, rheoli eu hemosiynau, empathi, agweddau sy'n gysylltiedig â'r rhyngryd, a'u hiechyd meddwl cyffredinol ar ôl cwblhau'r rhaglen (Gillespie et al, 2018), ac wedi hynny roedden nhw'n fwy abl i reoli eu meddyliau, eu teimladau a'u hymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu (Dervley et al, 2017).

Diogelu plant y bobl yr ymchwilir iddynt am gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein

Pan fydd yr heddlu'n ymchwilio i oedolyn am droseddau cam-drin plant yn rhywiol ar-lein, gall ymweliad cychwynnol yr heddlu â chartref y teulu a'r ymchwiliad dilynol achosi trawma i'w partner a'u plant; gall y trawma hwn barhau am flynyddoedd. Er ei bod yn bwysig ymchwilio i'r troseddau a chanfod a yw'r oedolyn wedi cam-drin ei blant ei hun yn rhywiol (neu a yw'n peri risg uniongyrchol iddyn nhw), mae teuluoedd yn teimlo'n aml bod rhai gweithredoedd – fel cynnal yr ymweliad cychwynnol pan fydd plant yn bresennol, cyfathrebu gwael, a lledaenu gwybodaeth am y drosedd yn ddiofal – yn peri gofid diangen. Mae teuluoedd yn wynebu cyfnod hir o ansicrwydd, ac yn teimlo nad oes gan rai gweithwyr proffesiynol empathi (Armitage et al, 2023a a 2023b).

Felly, mae cynnal gweithdrefnau gydag empathi a disgresiwn yn bwysig, ynghyd â bod yn anfeirniadol tuag at bartneriaid a theuluoedd. Pan fo plant yn bresennol, dylid darparu cefnogaeth ar eu cyfer. Hefyd, mae'n bwysig i'r heddlu adael gwybodaeth gyda'r teulu, fel y **Helpful Family Pack** gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, a chysylltu â nhw wedyn (Armitage et al, 2023a a 2023b). Mae gwybodaeth a chyngor i weithwyr cymdeithasol, gan gynnwys mewn perthynas â'r effeithiau ar holl aelodau'r teulu, ar gael yn nogfen y Ganolfan CPRh **Rheoli Risg a Thrawma ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein: Canllawiau Diogelu i'r Teulu Cyfan**.

Cyfeiriadau

Alaggia, R., Collin-Vézina, D. a Lateef, R. (2019) Facilitators and barriers to child sexual abuse (CSA) disclosures: A research update (2000–2016). *Trauma, Violence, & Abuse*, 20(2):260–283.

<https://doi.org/10.1177/1524838017697312>

Armitage, R., Wager, N., Wibberley, D., Hudspith, L. a Gall, V. (2023a) “We’re not allowed to have experienced trauma. We’re not allowed to go through the grieving process” – Exploring the indirect harms associated with Child Sexual Abuse Material (CSAM) offending and its impacts on non-offending family members. *Victims & Offenders*, erthygl ymlaen llaw.

<https://doi.org/10.1080/15564886.2023.2172504>

Armitage, R., Wager, N., Wibberley, D., Hudspith, L., Efthymiadou, E. a Gall, V. (2023b) *The Indirect Harm of Online Child Sexual Abuse: The Impact on Families of People Who Offend*. Bromsgrove: The Lucy Faithfull Foundation.

Augarde, S. a Rydon-Grange, M. (2022) Female perpetrators of child sexual abuse: A review of the clinical and empirical literature – A 20-year update. *Aggression and Violent Behavior*, 62:101687.

<https://doi.org/10.1016/j.avb.2021.101687>

Babchishin, K., Hanson, R. a VanZuylen, H. (2015) Online child pornography offenders are different: A meta-analysis of the characteristics of online and offline sex offenders against children. *Archives of Sexual Behavior*, 44(1):45–66.

<https://doi.org/10.1007/s10508-014-0270-x>

Babchishin, K., Lee, S., Eke, A. a Seto, M. (2022) Temporal order of sexual offending is risk-relevant for individuals with Child Sexual Exploitation Materials offences. *Sexual Offending: Theory, Research, and Prevention*, 17:e7229.

<https://doi.org/10.5964/sotrap.7229>

Bickart, W., McLearn, A., Grady, M. a Stoler, K. (2019) A descriptive study of psychosocial characteristics and offense patterns in females with online child pornography offenses. *Psychiatry, Psychology and Law*, 26(2):259–311.

<https://doi.org/10.1080/13218719.2018.1506714>

Bond, E., Ellis, F. a McCusker, J. (2018) *I’ll Be a Survivor for the Rest of My Life. Adult Survivors of Child Sexual Abuse and Their Experience of Support Services*. Ipswich: Prifysgol Suffolk.

Brown, S. (2022) Assessing the risk of users of child sexual exploitation material committing further offences: A scoping review. *Journal of Sexual Aggression*, erthygl ymlaen llaw.

<https://doi.org/10.1080/13552600.2022.2104394>

Canadian Centre for Child Protection (2017) *Survivors Survey: Full Report 2017*. Winnipeg, Canada: C3P.

Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol gyda’r Ganolfan Astudiaethau Cam-drin a Thrawma (2020) *A New Typology of Child Sexual Abuse Offending*. Barkingside: Canolfan CPRh.

DeMarco, J., Sharrock, S., Crowther, T. a Barnard, M. (2018) *Behaviour and Characteristics of Perpetrators of Online-facilitated Child Sexual Abuse and Exploitation. A Rapid Evidence Assessment*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Dervley, R., Perkins, D., Whitehead, H., Bailey, A., Gillespie, S. a Squire, T. (2017) Themes in participant feedback on a risk reduction programme for child sexual exploitation material offenders. *Journal of Sexual Aggression*, 23(1):46–61.

<https://doi.org/10.1080/13552600.2016.1269958>

ECPAT International (2020) *Summary Paper on Online Child Sexual Exploitation*. Bangkok, Gwlad Thai: ECPAT International.

Edwards, G., Christensen, L., Rayment-McHugh, S. a Jones, C. (2021) *Cyber Strategies Used to Combat Child Sexual Abuse Material (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No.636)*. Canberra: Australian Institute of Criminology.

<https://doi.org/10.52922/ti78313>

Elliott, I. a Hambly, O. (2023) *Horizon and iHorizon: An Uncontrolled Before-after Study of Clinical Outcomes*. Llundain: Gweinyddiaeth Cyfiawnder.

Elliott, I., Mandeville-Norden, R., Rakestrow-Dickens, J. a Beech, A. (2019) Reoffending rates in a UK community sample of individuals with convictions for indecent images of children. *Law and Human Behavior*, 43(4):369–382.

<https://doi.org/10.1037/lhb0000328>

- Finkelhor, D., Turner, H. a Colburn, D. (2022) Prevalence of online sexual offenses against children in the US. *JAMA Network Open*, 5(10):e2234471. <https://doi.org/10.1001/jamanetworkopen.2022.34471>
- Finkelhor, D., Walsh, K., Jones, L., Sutton, S. ac Opuda, E. (2022) *What Works to Prevent Online Violence against Children?* Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd.
- Gewirtz-Meydan, A., Walsh, W., Wolak, J. a Finkelhor, D. (2018) The complex experience of child pornography survivors. *Child Abuse & Neglect*, 80:238–248. <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2018.03.031>
- Gillespie, S., Bailey, A., Squire, T., Carey, M., Eldridge, H. a Beech, A. (2018) An evaluation of a community-based psycho-educational program for users of child sexual exploitation material. *Sexual Abuse*, 30(2): 169–191. <https://doi.org/10.1177/1079063216639591>
- Goharian, A., Stroebel, M., Fitz, S., Copeland, J. a Toomey, P. (2022) *Self-generated Child Sexual Abuse Material: Youth Attitudes and Experiences in 2021*. Manhattan Beach, Nghalifornia: Thorn.
- Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gyfryngau Cymdeithasol (2022) *Selfie Generation: What's behind the Rise of Self-generated Indecent Images of Children Online?* Llundain: GSHGC.
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2020) *Implementation and Use of OASys Sexual Reoffending Predictor (OSP) Policy Framework*. Llundain: Gweinyddiaeth Cyfiawnder a GCPEF.
- Hamilton, M. a Belton, I. (2022) *Offences Involving Indecent Images of Children: Literature Review*. Caeredin: Scottish Sentencing Council.
- Hamilton-Giachritsis, C., Hanson, E., Whittle, H., Alves-Costa, F., Pintos, A., Metcalf, T. a Beech, A. (2021) Technology assisted child sexual abuse: Professionals' perceptions of risk and impact on children and young people. *Child Abuse & Neglect*, 119(1):104651. <https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2020.104651>
- Hamilton-Giachritsis, C., Hanson, E., Whittle, H. a Beech, A. (2017) "Everyone Deserves to Be Happy and Safe". *A Mixed Methods Study Exploring How Online and Offline Child Sexual Abuse Impact Young People and How Professionals Respond to It*. Llundain: NSPCC.
- Insoll, T., Ovaska, A., Nurmi, J., Aaltonen, M. a Vaaranen-Valkonen, N. (2022) Risk factors for child sexual abuse material users contacting children online: Results of an anonymous multilingual survey on the dark web. *Journal of Online Trust & Safety*, 1(22). <https://doi.org/10.54501/jots.v1i2.29>
- Internet Watch Foundation (2022) *#BehindTheScreens: The Annual Report 2022*. Caergrawnt: IWF.
- Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2022) *The Report of the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse*. Llundain: Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Joleby, M., Lunde, C., Landström, S. a Jonsson, L. (2020) "All of me is completely different": Experiences and consequences among victims of technology-assisted child sexual abuse. *Frontiers in Psychology*, 11:606218. <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2020.606218>
- Jonsson, L., Fredlund, C., Priebe, G., Wadsby, M. a Svedin, C. (2019) Online sexual abuse of adolescents by a perpetrator met online: A cross-sectional study. *Child and Adolescent Psychiatry and Mental Health*, 13:32. <https://doi.org/10.1186/s13034-019-0292-1>
- Karsna, K. a Bromley, P. (2023) *Child Sexual Abuse in 2021/22: Trends in Official Data*. Barkingside: Canolfan CPRh.
- Knack, N., Holmes, D. a Fedoroff, J. (2020) Motivational pathways underlying the onset and maintenance of viewing child pornography on the Internet. *Behavioral Sciences & the Law*, 38(2):100–116. <https://doi.org/10.1002/bsl.2450>
- Lätth, J., Landgren, V., McMahan, A., Sparre, C., Eriksson, J., Malki, K., Söderquist, E., Öberg, K., Rozental, A., Andersson, G., Kaldo, V., Långström, N. a Rahm, C. (2022) Effects of internet-delivered cognitive behavioral therapy on use of child sexual abuse material: A randomized placebo-controlled trial on the Darknet. *Internet Interventions*, 30:100590. <https://doi.org/10.1016/j.invent.2022.100590>
- Leonard, M. (2010) "I did what I was directed to do but he didn't touch me": The impact of being a victim of internet offending. *Journal of Sexual Aggression*, 16(2):249–256. <https://doi.org/10.1080/13552601003690526>

Ly, T., Dwyer, R. a Fedoroff, J. (2018) Characteristics and treatment of internet child pornography offenders. *Behavioral Sciences & the Law*, 36(2):216–234.

<https://doi.org/10.1002/bsl.2340>

Marie Collins Foundation a NWG Network (2020) *Online Sexual Harm Reduction Guide*. Northallerton: Marie Collins Foundation.

Morgan, S. a Lambie, I. (2019) Understanding men who access sexualised images of children: Exploratory interviews with offenders. *Journal of Sexual Aggression*, 25(1):60–73.

<https://doi.org/10.1080/13552600.2018.1551502>

Ost, S. a Gillespie, A. (2018) To know or not to know: Should crimes regarding photographs of their child sexual abuse be disclosed to now-adult, unknowing victims? *International Review of Victimology*, 25(2):223–247.

<https://doi.org/10.1177/0269758018814601>

Perkins, D., Merdian, H., Schumacher, B., Bradshaw, H. a Stevanovic, J. (2018) *Interventions for Perpetrators of Online Child Sexual Exploitation: A Scoping Review and Gap Analysis*. Barkingside: Canolfan CPRh.

Phippen, A. a Bond, E. (2022) Working with schools to tackle online harms and gender-based violence. Yn Humphreys, C. a Towl, G. (gol.) *Stopping Gender-based Violence in Higher Education: Policy, Practice, and Partnerships*. Llundain: Routledge.

<https://doi.org/10.4324/9781003252474>

Prichard, J., Scanlan, J., Krone, T., Spiranovic, C., Watters, P. a Wortley, R. (2022) *Warning Messages to Prevent Illegal Sharing of Sexual Images: Results of a Randomised Controlled Experiment (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No.647)*. Canberra: Australian Institute of Criminology.

<https://doi.org/10.52922/ti78559>

Prichard, J., Scanlan, J., Watters, P., Wortley, R., Hunn, C. a Garrett, E. (2022) *Online Messages to Reduce Users' Engagement with Child Sexual Abuse Material. A Review of Relevant Literature for the reThink Chatbot*. Hobart: Prifysgol Tasmania.

Prichard, J., Wortley, R., Watters, P., Spiranovic, C., Hunn, C. a Krone, T. (2022) Effects of automated messages on internet users attempting to access “barely legal” pornography. *Sexual Abuse*, 34(1):106–124.

<https://doi.org/10.1177/10790632211013809>

Quayle, E., Schwannauer, M., Varese, F., Cartwright, K., Hewins, W., Chan, C., Newton, A., Chitsabesan, P., Richards, C. a Bucci, S. (2023) The experiences of practitioners working with young people exposed to online sexual abuse. *Frontiers in Psychiatry*, 14:1089888.

<https://doi.org/10.3389/fpsy.2023.1089888>

Rimer, J. (2021) Discipline as prevention: Psychoeducational strategies in internet sexual offending group programs. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 65(15):1607–1628.

<https://doi.org/10.1177/0306624X20952389>

Rimer, J. a Holt, K. (2023) “It was in control of me”: Notions of addiction and online child sexual exploitation material offending. *Sexual Abuse*, 35(1):3–30.

<https://doi.org/10.1177/10790632211070797>

Salter, M., Wong, T., Breckenridge, J., Scott, S., Cooper, S. a Peleg, N. (2021) *Production and Distribution of Child Sexual Abuse Material by Parental Figures (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No.616)*. Canberra: Australian Institute of Criminology.

<https://doi.org/10.52922/ti04916>

Setter, C., Greene, N., Newman, N. a Perry, J. (2021) *Global Threat Assessment 2021*. Sevenoaks: WeProtect Global Alliance.

Seto, M., Reeves, L. a Jung, S. (2010) Explanations given by child pornography offenders for their crimes. *Journal of Sexual Aggression*, 16(2):169–180.

<https://doi.org/10.1080/13552600903572396>

Slane, A., Martin, J. a Rimer, J. (2021) Views and attitudes about youth self-produced sexual images among professionals with expertise in child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 30(2):207–229.

<https://doi.org/10.1080/10538712.2021.1875095>

Smallbone, S. a Wortley, R. (2017) Preventing child sexual abuse online. Yn Brown, J. (gol.) *Online Risk to Children: Impact, Protection and Prevention*. Chichester: Wiley-Blackwell.

<https://doi.org/10.1002/9781118977545.ch8>

Smith, N., Dogaru, C. a Ellis, F. (2015) *Hear Me. Believe Me. Respect Me. A Survey of Adult Survivors of Child Sexual Abuse and Their Experiences of Support Services*. Ipswich: Prifysgol Suffolk.

Steel, C., Newman, E., O'Rourke, S. a Quayle, E. (2023) Lawless space theory for online child sexual exploitation material offending. *Aggression and Violent Behavior*, 68:101809.

<https://doi.org/10.1016/j.avb.2022.101809>

Steel, C., Newman, E., O'Rourke, S. a Quayle, E. (2021) Collecting and viewing behaviors of child sexual exploitation material offenders. *Child Abuse & Neglect*, 188:105133.

<https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2021.105133>

Van Horn, J., Eisenberg, M., McNaughton Nicholls, C., Mulder, J., Webster, S., Paskell, C., Brown, A., Stam, J., Kerr, J. a Jago, N. (2015) Stop It Now! A pilot study into the limits and benefits of a free helpline preventing child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 24(8):853–872.

<https://doi.org/10.1080/10538712.2015.1088914>

Walsh, A. a Tener, D. (2022) “If you don't send me five other pictures I am going to post the photo online”: A qualitative analysis of experiences of survivors of sextortion. *Journal of Child Sexual Abuse*, 31(4):447–465.

<https://doi.org/10.1080/10538712.2022.2067093>

Whittle, H., Hamilton-Giachritsis, C. a Beech, A. (2013) Victims' voices: The impact of online grooming and sexual abuse. *Universal Journal of Psychology*, 1(2):59–71.

<https://doi.org/10.13189/ujp.2013.010206>

Wolak, J., Finkelhor, D., Mitchell, K. a Jones, L. (2011) Arrests for child pornography production: Data at two time points from a national sample of US law enforcement agencies. *Child Maltreatment*, 16(3): 184–195. <https://doi.org/10.1177/1077559511415837>

Papurau eraill yn y gyfres ‘Negeseuon allweddol o’r ymchwil’

Camfanteisio’n rhywiol ar blant:

- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau’r heddlu yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithio’n amlasiantaethol
- ▶ Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

Nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt

Plant sy’n derbyn gofal a cham-drin plant yn rhywiol

Cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir gan oedolion

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol

Ewch i www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages

